Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

# Pentref yr Eglwys Newydd

## Dileu Mesurau Cadw Pellter Cymdeithasol

Pecyn Ymgysylltu

CARDIFF
CAERDYDD



# Pentref yr Eglwys Newydd

## Dileu Mesurau Cadw Pellter Cymdeithasol

### Pecyn Ymgysylltu

Mae'r Cyngor yn cynllunio newidiadau priffordd i ddisodli rheolaeth traffig dros dro sydd ar waith ar **Heol Merthyr** ym **Mhentref yr Eglwys Newydd**. Cyflwynwyd y mesurau rheoli traffig dros dro presennol i gefnogi cadw pellter cymdeithasol yn ystod **pandemig Covid 19**. Mae'r newidiadau priffordd arfaethedig yn ceisio cyd-fynd â **Chynlluniau hirdymor** y Cyngor ar gyfer Pentref yr Eglwys Newydd.

Yn dilyn ceisiadau i ddileu'r mesurau cadw pellter cymdeithasol, mae'r Cyngor wedi cwblhau asesiad o'r Pentref ac wedi ystyried cynlluniau hirdymor a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd.

Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys:

- Gwelliannau i goridorau bysiau, gyda'r nod o wella amseroedd teithio a mynediad bysiau;
- Mesurau lliniaru llifogydd; a
- Gwelliannau diogelwch

Er mwyn dileu'r mesurau rheoli traffig dros dro presennol a darparu ar gyfer y cynlluniau uchod, mae angen gwneud newidiadau yn y Pentref. Fel rhan o'r newidiadau hyn, bydd y Gorchmynion **Rheoli Traffig (GRhT)** presennol yn y Pentref yn cael eu diweddaru.

Hoffem glywed eich barn ar y cynnig. Byddwn yn defnyddio unrhyw adborth a gafwyd i lywio'r dyluniadau sydd ar y gweill. Mae gwybodaeth ar **Sut i Ymateb** ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon, ynghyd â **Chwestiynau Cyffredin**.




# Pentref yr Eglwys Newydd

## Dileu Mesurau Cadw Pellter Cymdeithasol

### Pecyn Ymgysylltu

Darparodd y mesurau rheoli traffig cadw pellter cymdeithasol a gyflwynwyd **le ychwanegol i gerddwyr**. Tynnwyd lleoedd parcio aros cyfyngedig ar y stryd i ddarparu ar gyfer y mesurau hyn a newidiwyd hefyd ddwy o'r tair cilfan fel y gwelir isod.




Mae Pentref yr Eglwys Newydd yn rhan o Goridor Bysiau. Fel rhan o astudiaeth **WelTAG** sy'n cael ei chynnal ar y coridor hwn, nododd cysylltiad â gweithredwyr bysiau fod y parcio ar y stryd a fu ar waith yn flaenorol a pharcio anghyfreithlon yn rhwystro **gweithrediad y gwasanaeth bysiau**. Mae symudiadau bysiau trwy'r pentref wedi gwella o ganlyniad i'r bolardiau a gyflwynwyd, er bod parcio rhwystrol anghyfreithlon yn dal i fod yn broblem.

O ran cynlluniau at y dyfodol, bydd y Cyngor yn datblygu **cynllun lliniaru llifogydd** cyn bo hir a fydd yn newid cynllun y briffordd ym Mhentref yr Eglwys Newydd.

Mae cynllun **treialu croesfan i gerddwyr** ar y gweill hefyd ar Bishops Road, ger y gyffordd â Heol Merthyr.

Er mwyn darparu ar gyfer cynlluniau'r dyfodol a mynd i'r afael â materion parcio, mae angen **diweddaru'r cyfyngiadau parcio** yn y pentref, sy'n golygu newid y **GRhT** presennol.

*GRhT yw'r ddogfen gyfreithiol sydd ei hangen i gefnogi ystod o fesurau, sy'n llywodraethu neu'n cyfyngu ar y defnydd o ffyrdd cyhoeddus. Er enghraifft, llinellau melyn dwbl.*



# Pentref yr Eglwys Newydd

## Dileu Mesurau Cadw Pellter Cymdeithasol

### Pecyn Ymgysylltu

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

CARDIFF CAERDYDD

Bydd **dull graddol** yn cael ei gynnal i ddileu'r mesurau rheoli traffig cadw pellter cymdeithasol a gweithredu'r cynlluniau tymor hwy.


Mae’r camau hyn fel a ganlyn:

- **Cam 1** - Tynnu bolardiau / trefniant parcio dros dro
- **Cam 2** - Newid y GRhT a gwella'r llwybr troed
- **Cam 3** - Cynllun lliniaru llifogydd (cynnig hirdymor)

**Cam 1** - bydd y cam hwn yn cynnwys:

- Tynnu'r bolardiau yn y ddwy ardal;
- Tynnu'r ramp tarmac (cyferbyn â 63 Heol Merthyr);
- Gwneud priffordd dda o unrhyw ddiffygion yn sgil tynnu'r bolardiau / ramp; ac
- Adfer leiniau / arwyddion am gyfnod dros dro ar gyfer yr hen leoedd parcio rhwng 65 a 53a Heol Merthyr.

Dangosir cynllun dangosol ar y dde sy'n dangos **Cam 1** y cynnig. Dylid nodi y byddai'r lleoedd parcio rhwng 65 a 53a Heol Merthyr ar gyfer **parcio cyfochrog yn unig.**




Cynllun dros dro yw'r trefniant uchod ac mae disgwyl iddo fod ar waith am 7 i 9 mis yn unig, tra bod Cam 2 yn cael ei ddatblygu / weithredu.

# Pentref yr Eglwys Newydd

## Dileu Mesurau Cadw Pellter Cymdeithasol

Pecyn Ymgysylltu


### Cam 2 - Newid y GRhT a gwella'r llwybr troed

Bydd y Cyngor yn datblygu GRhT i ddileu parcio aros cyfyngedig ar y stryd a pharcio anghyfreithlon trwy ardal y Pentref fel rhan o welliannau i'r gwasanaeth bysiau. Bydd rhai lleoedd parcio i ddefnyddwyr anabl yn dal i fod ar gael yn ardal y gilfan ddeheuol. Bydd y parcio anabl ar Bishops Road yn cael ei gadw, ond ei adleoli i ffwrdd o'r man croesi.

Gall gwelliannau eraill gynnwys:

- Gwella'r llinell cwrb / gosod wyneb newydd rhwng 13 – 23 Heol Merthyr, yn cynnwys bolardiau i atal parcio ar y droedffordd
- Arwyddion i ddod o hyd i'r Maes Parcio / parcio anabl
- Gosod stondin beicio posibl

Dangosir cynllun dangosol ar y dde sy'n dangos **Cam 2** y cynnig.




Bydd y GRhT yn destun proses gyfreithiol ar wahân, ond gall ystyried safbwyntiau a godwyd fel rhan o'r Ymgysylltiad hwn.

# Pentref yr Eglwys Newydd
## Dileu Mesurau Cadw Pellter Cymdeithasol
### Pecyn Ymgysylltu

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

CARDIFF CAERDYDD

**Cam 3 – Cynlluniau Lliniaru Llifogydd**

Mae Tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordirol Cyngor Caerdydd wedi llwyddo i gael arian gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu achos busnes llawn / dyluniad manwl o gynllun **lliniaru llifogydd** i leihau'r perygl o lifogydd o ddalgylch deheuol **Nant yr Eglwys Newydd** o Ffordd y Faenor i'w arllwysfa ar Afon Taf.

Rhagwelir y bydd y cynllun yn cynnwys **llifddorau llifogydd, gwelliannau i'r nant** a gosod asedau seilwaith gwyrdd fel gerddi glaw ymysg gwelliannau eraill i liniaru llifogydd.

Penodwyd ymgynghorwyr i wneud y dyluniad manwl ac mae'r **prosiect ar y gweill**.



Grangetown Werddach - enghraifft o ardd law



Bydd **digwyddiad ymgysylltu / cynnwys y cyhoedd** yn cael ei gynnal **pan fydd y dyluniadau drafft wedi'u cwblhau** i fesur barn / meddyliau rhanddeiliaid, a fydd yn llywio'r dyluniad ymhellach (a ragwelir tua diwedd 2023).

Nid oes gennym unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd sy'n dangos lleoliadau neu gynigion, nac unrhyw wybodaeth arall i'w rhannu â chi mewn cysylltiad â Cham 3 (cynlluniau Lliniaru Llifogydd). Oherwydd hyn, **dim ond safbwyntiau mewn cysylltiad â Cham 1 a Cham 2 fydd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd**.

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

# Pentref yr Eglwys Newydd - Dileu Mesurau

## Cadw Pellter Cymdeithasol - Cwestiynau Cyffredin

CARDIFF CAERDYDD

**Beth ydych chi'n ymgynghori arno'n union?** Rydym yn ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig i'r GRhT ym Mhentref yr Eglwys Newydd, dileu'r mesurau rheoli traffig dros dro a gwybodaeth am gynlluniau i'r dyfodol.

**Ydych chi'n cynnig dileu'r bolardiau?** Ydyn.

**Pam ydych chi'n bwriadu newid y GRhT?** Mae tri phrif reswm:

- **Symudiadau bysiau** – *Mae Papur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd yn gosod targedau beiddgar i gyflawni newid modd sylweddol o deithiau ceir preifat. Mae'r Cygor felly yn ceisio annog pobl i wneud newidiadau i drafnidiaeth fwy cynaliadwy er mwyn cefnogi datgarboneiddio. Mae'r parcio ar y stryd a fu ar waith yn flaenorol a pharcio rhwystrol/anghyfreithlon yn rhwystro gwasanaethau bysiau. Bydd cyflwyno cyfyngiadau parcio yn creu rhwydd hynt i symudiadau bysiau drwy helpu i ddileu parcio rhwystrol.*
- **Gwaith lliniaru llifogydd** – *Mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu mesurau i fynd i'r afael â llifogydd. Bydd y rhain yn newid cynllun y briffordd yn y Pentref, drwy gyflwyno draenio cynaliadwy, gerddi glaw ac amddiffyn rhag llifogydd. Y bwriad yw ymgysylltu â'r cyhoedd tua diwedd 2023. Bydd cyflwyno cyfyngiadau parcio yn agor y cyfle i weithredu mesurau o fewn ardal priffyrdd cyhoeddus.*
- **Gwelliannau diogelwch** – *Mae agosrwydd y lle parcio a cherbydau'n stopio ger y siop gornel yn effeithio ar welededd ger y groesfan i gerddwyr ar Bishops Road. Bydd ail-leoli'r lle parcio a newid cyfyngiadau parcio yn gwella gwelededd ger y gyffordd ac yn atal cerbydau rhag achosi rhwystr.*

**Pam na all y parcio aros ar Heol Merthyr?** Bydd ailgyflwyno parcio ar y stryd yn cael effaith negyddol ar fysiau. Am gyfnod byr yn unig y bydd Cam 1 ar waith wrth i'r GRhT gael eu datblygu. Fel rheol bydd hyn yn cymryd saith i naw mis i'w prosesu.

**A fydd lle parcio arall yn cael ei ddarparu?** Na fydd, mae digon o le parcio ar gael yn y meysydd parcio cyhoeddus oddi ar y ffordd.

**Beth sy'n cael ei gynnig yn y gilfan?** Bydd hyn yn cael ei benderfynu fel rhan o'r broses GRhT. Mae man llwytho sy'n dod yn safle tacsis gyda'r nos yn opsiwn. Hefyd bydd lle i ddeiliad bathodyn glas gyda chyfyngiadau amser a dychwelyd i ddarparu trosiant rheolaidd yn cael eu hystyried.

**A fyddwn i'n gallu defnyddio fy bathodyn glas ar y ffordd?** Dim ond yn y mannau dynodedig neu lle mae cyfyngiadau parcio yn caniatáu hynny.

# Pentref yr Eglwys Newydd - Dileu Mesurau Cadw Pellter Cymdeithasol - Sut i ymateb

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

CARDIFF CAERDYDD

**A wnewch chi ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio'r ffurflen arolwg: YMA**

Neu copïwch a gludwch yr URL canlynol: https://online1.snapsurveys.com/WhitVil

Bydd hyn yn eich galluogi i wneud sylwadau ffurfiol mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Fel arall, e-bostiwch ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennu at: Tîm y Rhaglen Drafnidiaeth, Ystafell 301 Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW.

**Bydd yr ymgynghoriad ar agor tan 16/06/2023**

**Ni allwn wneud sylw, na darparu gwybodaeth am y cynllun lliniaru llifogydd ar hyn o bryd**

Caiff yr holl ymatebion eu hadolygu a'u defnyddio er mwyn helpu i ysgrifennu'r Adroddiad ar yr Ymgynghoriad sef un o'r dulliau a ddefnyddir i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y cynllun. Gellir newid y cynllun enghreifftiol a ddangosir o ganlyniad i'r broses ddylunio fanwl, neu oherwydd adborth arall a gafwyd yn ystod y broses ymgysylltu neu ddylunio.

Bydd ymatebion i gwestiynau am y cynnig ar gael yn Adroddiad yr Ymgynghoriad pan fydd ar gael yn **www.caerdydd.gov.uk/projectautrafnidiaeth**, gan ddewis y ddolen 'ymgynghoriadau blaenorol' a dewis teitl y cynllun. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymgynghoriad, caiff y prosiect ei gynllunio'n fanwl a'i roi ar waith, yn amodol ar gymeradwyaeth ac arian.

**Sylwer mai dim ond adborth a chwestiynau sy'n ymwneud â'r prosiect hwn a gaiff eu hystyried neu y gweithredir arnynt. Os oes gennych unrhyw adborth ar wasanaethau eraill y Cyngor, ewch i www.caerdydd.gov.uk**

**Ni allwn ymateb i ymatebion unigol chwaith – ond bydd yr holl ymatebion yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad a fydd ar gael yn fuan wedi dyddiad cau'r ymgynghoriad. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei rhannu.**